**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

—

**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565

—

**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Peter Ryland
Prif Weithredwr, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Hugh Morgan
Pennaeth yr Is-adran Taliadau Gwledig, Llywodraeth

24 Hydref 2023

Annwyl Peter a Hugh

## Gwneud y Mwyaf o Arian yr UE

Rwy'n ysgrifennu yn dilyn eich ymddangosiad gerbron y Pwyllgor ar 14 Medi 2023, i fynd i'r afael â chwestiynau ar adroddiad Archwilio Cymru, Gwneud y Mwyaf o Arian yr UE (Mehefin 2023). Diolch am eich presenoldeb.

Fel y trafodwyd, roedd gan y Pwyllgor gwestiynau pellach i'w gofyn i chi:

### Cyllid newydd

*Rhaglen Cronfeydd Strwythurol*

- Gyda'r cyllid Ffyniant Cyffredin yn mynd yn uniongyrchol i lywodraeth leol, beth mae Llywodraeth Cymru yn ei gynllunio ar gyfer rhaglenni cenedlaethol fel dysgu seiliedig ar waith, prentisiaethau a gwasanaethau cymorth cyflogaeth sydd wedi denu llawer gan Gronfeydd Strwythurol yr UE o'r blaen.

*Rhaglen Datblygu Gwledig*

- O ystyried pwysau ehangach ar gyllideb Llywodraeth Cymru, beth yw'r rhagolygon i’r cyllid newydd gyfateb i'r lefelau a ddarparwyd gan y Rhaglen Datblygu Gwledig, gan gynnwys lefel y ddarpariaeth ar gyfer rhaglenni economaidd-gymdeithasol.

- A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi lefel debyg o wybodaeth am wariant a pherfformiad ar y cynlluniau newydd fel o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

- Sut mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhaglen Economaidd a Chynaliadwyedd Gwledig (ar draws 2022-23 i 2024-25) wedi'i ddyrannu a'i wario hyd yma, gan gynnwys a oedd y dyraniad ar gyfer 2022-23 wedi'i wario'n llawn.

- Pryd mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl agor ceisiadau am y cynllun amaeth-amgylcheddol interim (yn lle Glastir) ac a fydd cyllid tebyg i flynyddoedd blaenorol ar gael.

Materion eraill

Fe wnaethoch gytuno i ysgrifennu at y Pwyllgor am y materion a ganlyn:

- Faint o brosiectau gweithredol sydd wedi pasio eu dyddiad cwblhau dyledus o fewn y rhaglen cronfeydd strwythurol?

- Fe wnaethoch ymrwymo i ddarparu rhagor o fanylion am eich cynigion ar gyfer addasu'r Rhaglen Datblygu Gwledig (gweler paragraff 176 o'r trawsgrifiad).

- Fe wnaethoch gytuno i roi diweddariad ysgrifenedig ar y gwariant gwledig domestig o £27.3 miliwn yn 2022-23 (gweler baragraff 149 o'r trawsgrifiad).

- Fe wnaethoch hefyd gytuno y byddech yn cadarnhau cyfanswm gwerth cyllid y Cynllun Datblygu Gwledig a dynnwyd i ffwrdd gan Lywodraeth y DU, o ganlyniad i wariant araf (gweler baragraff 140 o'r trawsgrifiad).

- A yw Llywodraeth Cymru wedi gweld unrhyw ostyngiad pellach yn nifer y camgymeriadau gweinyddol yn ymwneud â dehongli rheolau'r cynllun Rhaglen Datblygu Gwledig ers i'r sefyllfa gael ei hadlewyrchu yng ngwaith archwilio 2022 Archwilio Cymru. Mae hyn yn ymwneud â'r gwaith archwilio ariannol y cyfeirir ato ym mharagraff 38 o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.

- Sut mae'r addasiad 30 Medi a ragwelwyd yn y Rhaglen Datblygu Gwledig yn datblygu, beth fydd yr addasiad yn ei olygu, a'r rhesymau drosto.

Diolch o flaen llaw am fynd i'r afael â'r cwestiynau ychwanegol hyn.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r wybodaeth hon erbyn 15 Tachwedd 2023.

Yn gywir,



Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus